**Penderfyniadau a wnaed gan y Comisiynydd (gan gynnwys y rhai a wnaed yn y Bwrdd Plismona) o 10 Gorffennaf i 19 Hydref 2020**

| Teitl a Chrynodeb | Dyddiad |
|---|---|
| **Cyfraniad tuag at y Prosiect Troseddwyr**<br><br>Penderfynodd CHTh roi arian tuag at y Prosiect Troseddwyr Stelcio. Mae CHTh yn gweithio gyda'r bwrdd Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Cham-drin Rhywiol er mwyn cefnogi ac estyn cylch gorchwyl dyfarniad Grant Refeniw Llywodraeth Cymru i gyflwyno cynllun peilot sy'n mynd i'r afael â stelcio ar draws y rhanbarth.<br><br>Cytunodd CHTh i roi £9901 o'r gyllideb Deddf Elw Troseddau i gyfrannu at y prosiect.<br><br>*(Gwnaed y penderfyniad yn y chwarter blaenorol).* | 19 Mai |
| **Cyfraniad tag at Swyddog Brysbennu Twyll**<br><br>Cymeradwyodd CHTh gynnig i bennu arian ar gyfer ariannu rôl Swyddog Brysbennu Twyll ar sail 12 mis. Aeth adran CID Heddlu Dyfed-Powys at y CHTh i ofyn iddo gefnogi'r Tîm Troseddau Economaidd â chynllun peilot 12 mai. Nod y rôl yw gwella rheoli, cyfeirio ac ymchwilio twyll yr adroddir amdano wrth Heddlu Dyfed-Powys.<br><br>Cymeradwyodd CHTh ddyrannu £21,215.50 o gyllideb y Ddeddf Elw Troseddau i ariannu'r rôl ar sail 12 mis. | 10 Gorffennaf |
| **Cytundeb cerbydau interim**<br><br>Cymeradwyodd CHTh argymhelliad ar gyfer gwobrwyo cytundeb cerbydau interim hyd nes y bydd cytundeb newydd yn cael ei ddyfarnu ym mis Ebrill 2021. Yn dilyn ymarfer cymharu costau gan y Rheolwr Fflyd, cymeradwyodd CHTh benderfyniad i roi'r cytundebau canlynol i ddarparu ar gyfer yr Heddlu ar gyfer y cyfnod interim tan Ebrill 2021:<br><br>• Cerbydau bît perfformiad isel (8) – Peugeot<br>• Cerbydau cronfa (4) – Peugeot<br>• Cerbydau Traffig Perfformiad Uwch (10) – BMW<br>• Faniau cell (6) – Ford<br><br>Cyfanswm gwerth y cytundeb interim yw £533,317.40. | 20 Gorffennaf |
| **Rhoddwyd grant i YMCA Abertawe**<br><br>Penderfynodd CHTh roi grant i YMCA Abertawe ddatblygu a chynnal clwb ieuenctid yn ardal Glan-y-môr, Llanelli, sydd heb gyfleuster clwb ieuenctid ar gyfer y gymuned. Yn dilyn llwyddiant | 22 Gorffennaf |

| | |
|---|---|
| y grant blaenorol a'r angen i'r clwb ieuenctid barhau â'i waith, cyflwynwyd achos busnes i'r CHTh ar gyfer parhau â'r prosiect.<br><br>Rhoddodd CHTh grant o £9500 o gyllideb y Ddeddf Elw Troseddau tuag at YMCA Abertawe i gynnal y prosiect clwb ieuenctid Glan-y-môr tan fis Mawrth 2021. | |
| **Rhoddwyd grant i Ymddiriedolaeth Clwb Pêl Droed Dinas Abertawe**<br><br>Penderfynodd CHTh roi grant 6 mis i Ymddiriedolaeth Clwb Pêl Droed Abertawe i ddatblygu a chynnal sesiynau pêl droed yn ardal Glan-y-môr, Llanelli. Yn dilyn llwyddiant y grant blaenorol, a'r angen ar gyfer parhau â'r prosiect, cyflwynwyd achos busnes i'r CHTh er mwyn parhau â'r prosiect.<br><br>Cytunodd CHTh i roi grant o £9542.30 o'r gyllideb Deddf Elw Troseddau tuag at Ymddiriedolaeth Clwb Pêl Droed Dinas Abertawe er mwyn cynnal y prosiect 'Kicks' Glan-y-môr tan fis Mawrth 2021. | 22 Gorffennaf |
| **Dewisiadau ar gyfer prosiect ystadau Aberhonddu**<br><br>Cymeradwyodd CHTh benderfyniad i fwrw ymlaen â dewisiadau ar gyfer datblygu ystâd Heddlu Dyfed-Powys yn Aberhonddu, Powys. Cymeradwyodd CHTh benderfyniad i Dîm Gweithredol SCHTh a Phrif Swyddogion ystyried dau ddewis ar gyfer datblygu'r prosiect. Mae dewis 1 yn rhoi cyfle i adnewyddu'r adeilad presennol yn Aberhonddu, ac mae dewis 2 yn ystyried creu cyfleuster newydd pwrpasol.<br><br>Cymeradwyodd CHTh benderfyniad i barhau i adolygu dewis 1 a dewis 2 ar gyfer y prosiect, ac i Brif Swyddogion a Thîm Gweithredol SCHTh asesu cost ac addasrwydd pob dewis. | 4 Awst |
| **Argraffu ar gyfer adroddiad 2019-20 CHTh**<br><br>Cymeradwyodd CHTh benderfyniad i argraffu Adroddiad Blynyddol 2019/2020. Y cwmni lleol Gwasg Gomer Cyf fydd yn ei argraffu. Disgwylir i'r CHTh gynhyrchu Adroddiad Blynyddol yn erbyn blaenoriaethau ei Gynllun Heddlu a Throseddu a chyflenwi swyddogaethau statudol. Ysgrifennwyd Adroddiad Blynyddol 2019/2020 gan staff SCHTh. Cafodd ei ddylunio gan gwmni allanol a'i gyhoeddi ar-lein, ac am y tro cyntaf, y mae wedi'i gynhyrchu mewn cyfres o fideos.<br><br>Cysylltwyd â nifer o gwmnïoedd argraffu er mwyn gofyn am amcanbrisiau ar gyfer yr Adroddiadau. Derbyniwyd tri amcanbris, ac roedd y cwmni a ddewiswyd yn cynnig yr amcanbris rhataf ar gyfer y gwasanaeth yr oedd ei angen. | 12 Awst |

| | |
|---|---|
| Y gost ar gyfer argraffu oedd £495 ar gyfer 100 copi Cymraeg a 100 copi Saesneg. | |
| **Cronfa Astudiaethau Academaidd**<br><br>Cyflwynodd CHTh fenter i gefnogi astudiaethau academaidd lefel israddedig ac ôl-raddedig swyddogion heddlu a staff heddlu. Y nod yw cefnogi astudiaethau sy'n berthnasol ar gyfer rolau presennol sydd hefyd yn elwa'r sefydliad ag elfen ymchwil gref sy'n cefnogi datblygiad Heddlu Dyfed-Powys.<br><br>Bydd y cyfle academaidd yn rhan o'r polisi Addysg Uwch, Prentisiaethau a Hyfforddiant Ôl-fynediad. Mae'r polisi'n nodi'r telerau ac amodau sydd ynghlwm â derbyn cyllid, sy'n talu am hyd at 50% o'r costau. Bydd ceisiadau'n cael eu hasesu gan Banel, sy'n cynnwys y Pennaeth Dysgu a Datblygu, Pennaeth Staff SCHTh ac aelod o'r Tîm Adnoddau Dynol.<br><br>Pennodd y CHTh £10,000 o gyllideb SCHTh ar gyfer darparu'r gronfa, a fydd yn cael ei hadolygu'n flynyddol. | 20 Awst |
| **Cytundeb cynllun camera sefydlog**<br><br>Cefnogodd y CHTh argymhelliad i wobrwyo'r cynllun camerâu diogelwch sefydlog i Jenoptik Traffic Solutions UK Cyf. Er mwyn cydymffurfio â Chymeradwyaeth Math y Swyddfa Gartref, mae'n hollbwysig fod camerâu diogelwch sefydlog a'r amgaeadau a gyflenwir yn cael eu cynnal a'i graddnodi'n flynyddol er mwyn sicrhau gweithrediad effeithiol a chydymffurfiaeth â gofynion Iechyd a Diogelwch.<br><br>Cymeradwyodd CHTh benderfyniad i roi cytundeb gwerth £35,391 (heb gynnwys TAW) i Jentopik Traffic Solutions Cyf ar gyfer cyflawni'r gwaith. | 25 Awst |
| **Cefnogaeth ar gyfer aelodau staff sy'n derfynol wael**<br><br>Mewn cytundeb â'r Prif Gwnstabl, cefnogodd CHTh Heddlu Dyfed-Powys o ran arwyddo'r Siarter Marw i Weithio. Llw cenedlaethol yw'r siarter i weithleoedd roi cefnogaeth ddigonol i aelodau staff sy'n derfynol wael. | 25 Awst |
| **Cyfraniad ariannol ar gyfer prosiect 'Kicks' Clwb Pêl Droed Dinas Abertawe yn Sir Benfro**<br><br>Cymeradwyodd CHTh gynnig i gyfrannu at weithredu'r prosiect 'Kicks' Uwch-gynghrair yn Sir Benfro. Bydd y prosiect yn cael ei ddatblygu yn Sir Benfro mewn partneriaeth â SCHTh a'r Heddlu, ac mae'n adeiladu ar ei lwyddiannau yng Nglan-y-môr, Llanelli, ac ar draws rhanbarth Dinas Abertawe. | 3 Medi |

| | |
|---|---|
| Mae'r prosiect yn rhoi cyfle i blant o'r ardal leol fod yn rhan o'r gymuned, er mwyn cynyddu hyder, cyfleoedd bywyd ac atal trosedd ac ymddygiad gwrthgymdeithasol drwy chwaraeon. Mae'r prosiect yn ymagwedd bartneriaeth tuag at atal trosedd, ac mae'n gwneud buddsoddiad yn iechyd a lles pobl ifainc yn y sir. Y bwriad yw meithrin cysylltiad cadarnhaol rhwng pobl ifainc, eu teuluoedd a'r gymuned ehangach, a'r heddlu a phartneriaid.<br><br>Cyfrannodd CHTh £4000 o'r gronfa Deddf Elw Troseddau ynghyd â £1000 o gefnogaeth o gyllideb yr Heddlu. | |
| **Ymweliadau Annibynnol â Dalfeydd yn ystod y pandemig Coronafeirws**<br><br>Cymeradwyodd y CHTh benderfyniad i gyflwyno rota cymysg o alwadau ac ymweliadau corfforol ar gyfer Ymwelwyr Annibynnol â Dalfeydd. O ganlyniad i'r pandemig coronafeirws a chyngor a gyhoeddwyd gan y Llywodraeth, gohiriodd Heddlu Dyfed-Powys bob ymweliad nad oedd yn hanfodol â safleoedd yr Heddlu o 18 Mawrth 2020 er mwyn diogelu cadernid plismona yn Nyfed-Powys.<br><br>O ganlyniad i fonitro'r sefyllfa'n gyson, ar 12 Awst, ailgychwynnodd galwadau ffôn i'r ddalfa. Mae Ymwelwyr Annibynnol â Dalfeydd wedi bod yn galw'r ddalfa'n wythnosol ers y dyddiad hwnnw er mwyn siarad yn uniongyrchol â charcharorion sy'n fodlon siarad â nhw er mwyn gwirio lles. Yn y Bwrdd Plismona ar 18 Medi, cafwyd trafodaeth bellach er mwyn ailgyflwyno dychweliad fesul cam i ymweliadau Ymwelwyr Annibynnol â Dalfeydd, gyda rota cymysg o alwadau ffôn a galwadau corfforol.<br><br>Cymeradwyodd CHTh benderfyniad i gyflwyno rota cymysg o 5 Hydref, a fydd yn cael ei adolygu'n barhaus, gan ddibynnu ar lefelau COVID-19 ym mhob ardal. | 18 Medi |
| **Cylch Gorchwyl y Bwrdd Plismona a Bwrdd Atebolrwydd yr Heddlu**<br><br>Cymeradwyodd CHTh ddiwygiadau i gylch gorchwyl y Bwrdd Plismona a chylch gorchwyl Bwrdd Atebolrwydd yr Heddlu yn dilyn adolygiad gan Brif Swyddogion a thîm SCHTh. Mae'r rhain wedi'u cyhoeddi ar wefan SCHTh. | 18 Medi |
| **Cymeradwywyd newidiadau i'r Fframwaith Llywodraethu Corfforaethol**<br><br>Cymeradwyodd CHTh fân ddiwygiadau a diweddariadau i'r Fframwaith Llywodraethu Corfforaethol a oedd yn ofynnol ar gyfer diweddaru'r ddogfen er mwyn adlewyrchu arferion. Mae'r fframwaith yn nodi'r egwyddorion, strwythurau a phrosesau yn ôl pa rai y bydd SCHTh a HDP yn cael eu llywodraethu ar y cyd ac ar | 18 Medi |

| | |
|---|---|
| wahân. Lluniwyd y fframwaith ar gyfer cefnogi cyflenwi Cynllun Heddlu a Throseddu CHTh. | |
| **Noddi Cyngor Hil Cymru**<br><br>Cymeradwyodd CHTh benderfyniad i noddi cyfres o ddigwyddiadau rhithwir ar-lein gan Gyngor Hil Cymru er mwyn dathlu Mis Hanes Pobl Dduon. Mae'r arian nawdd yn cefnogi digwyddiad lansio rhithwir ar 1 Hydref ynghyd â digwyddiadau ymgysylltu rhithwir pellach drwy gydol mis Hydref.<br><br>Cymeradwyodd CHTh benderfyniad i roi £1000 tuag at y digwyddiad. | 30 Medi |
| **Rhoi arian tuag at Ganolfan Ragoriaeth Cysylltu Ieuenctid, Plant ac Oedolion**<br><br>Cymeradwyodd CHTh benderfyniad i wneud cyfraniad ariannol i Ganolfan Ragoriaeth Cysylltu Ieuenctid, Plant ac Oedolion. Mae'r ganolfan wedi'i lleoli yn Noc y Gogledd, Llanelli, ac mae'n elusen annibynnol sy'n darparu gwasanaethau cymorth i blant, pobl ifainc a theuluoedd. Agorwyd y ganolfan gan y CHTh ar 11 Medi 2020.<br><br>Bydd y ganolfan yn darparu darpariaeth meithrin gofrestredig Gofal yng Nghymru, cyfleuster meithrinfa estyn allan â chlwb ar ôl ysgol a chlwb gwyliau, hyfforddiant, mentora a chwnsela proffesiynol ac wedi'i gomisiynu, a phresgripsiwn cymdeithasol (cymorth Canolfan Camfanteisio ar Blant a'u Hamddiffyn Ar-lein, profiadau niweidiol yn ystod plentyndod gwybodus). Mae'r Ganolfan yn hyrwyddo lles cadarnhaol, yn rhoi'r grym i unigolion gyrraedd eu potensial, ac yn annog dysgwyr i adeiladu system gred gadarn.<br><br>Cyfrannodd CHTh £1000 i'r prosiect. | 1 Hydref |